



Clare Pillman [copi i Aelodau Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru]
Prif Weithredwr
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

24^{ain} Ionawr 2022

Parthed cynllun plannu coedwigaeth arfaethedig yn Frongoch, Sir Gaerfyrddin

Cyf: 30/21-22 (Sgrinio AEA); ATI-22499a (Cais am Wybodaeth)

Mae gan INCC bryderon difrifol ynghylch y ffordd yr ystyriodd Cyfoeth Naturiol Cymru ("CNC") y cynllun plannu coedwigaeth arfaethedig yn Frongoch, Sir Gaerfyrddin (y "**Prosiect**"), gan gynnwys ei benderfyniad dyddiedig 22 Gorffennaf 2021 nad oedd y Prosiect angen caniatâd o dan Reoliadau Aseidiadau o'r Effaith Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999 ("**Rheoliadau Coedwigaeth AEA**") (y "**Penderfyniad**").

Er bod y cyfyngiad amser ar gyfer cyflwyno unrhyw her gyfreithiol ynghylch y Penderfyniad wedi mynd heibio, rydym o'r farn ei bod yn ddoeth mynegi'r pryderon hyn i CNC yn awr, yn enwedig gan ei bod yn bosibl y bydd CNC yn bwriadu gweithredu mewn ffordd debyg gyda phrosiectau eraill yn y dyfodol, ac mae'n debygol y bydd cynnydd mewn cynigion coedwigo yn ystod y degawd nesaf.

Rydym wedi ceisio cyngor cyfreithiol ynghylch y mater hwn ac mae'r cwmsler wedi nodi bod risg wirioneddol bod Penderfyniad CNC a'i ystyriaeth o'r Prosiect yn anghyfreithlon¹.

Cefndir

Mae'r Prosiect ar gyfer coedwigo 73ha o dir fferm yn Frongoch, ac mae'n cynnig plannu conwydd cynhyrchiol (ffynidwydd Douglas ar ran isaf y safle, a sbriws Sitka yn y ddwy ardal sy'n ymestyn i fyny'r bryn²).

¹ Cwmsler wedi'i gyfarwyddo gan Leigh Day

² Gweler cais sgrinio AEA yr ymgeisydd yn 1.2.

Yn ôl y cais sgrinio AEA, mae'r safle'n ffinio â, ac wedi ei leoli yn y glustogfa ar gyfer, (1) Ardal Cadwraeth Arbennig ("ACA") Cwm Doethie – Mynydd Mallaen a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ("SoDdGA") (wedi'u lleoli ar ochrau gorllewinol a dwyreiniol y safle) a (2) Ardal Gwarchodaeth Arbennig ("AGA") Elenydd – Mallaen a SoDdGA Cwm Doethie – Mynydd Mallaen (wedi'u lleoli ar ochr ddwyreiniol y safle yn unig). Fodd bynnag, i fod yn glir, mae ôl troed y Prosiect yn croesi, ac felly'n cynnwys, ardaloedd sylweddol o'r ACA a'r SoDdGA (tua 10-11ha yn fras ar yr ochr orllewinol) a'r ACA, y SoDdGA a'r AGA (tua 11ha yn fras ar yr ochr ddwyreiniol).

Rydym yn pryderu na chafodd nifer o effeithiau amgylcheddol posibl ar y safleoedd gwarchodedig hyn eu hystyried a/neu eu hasesu'n briodol gan CNC. Mae'r rhain yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- (i) Ni roddwyd digon o ystyriaeth i effeithiau ar y Barcud Coch (*Milvov milvov*), (rhywogaeth atodiad 1 y mae ei phoblogaeth wedi'i chynnwys fel nodwedd gymhwyso o'r AGA). Roedd cynllun rheoli'r ymgeisydd yn canolbwyntio ar yr AGA ei hun, ond gall tarfu ac argaeledd cyrff marw (a gydnabyddir yn y cynllun fel ffactorau sy'n effeithio ar y Barcud Coch) gael eu heffeithio'n negyddol yn sgil defnydd o dir cyfagos (yn enwedig gan fod defnydd y rhywogaeth o dir cyfagos yn cael ei gydnabod yn nodwedd maint poblogaeth y AGAau ar gyfer y Barcud Coch sydd, wrth bennu cyfyngiad is derbyniol, yn cofnodi bod "*o leiaf 15 pâr o farcutiaid yn nythu'n rheolaidd yn AGA y safle, neu o fewn 2km i'r ffin*").
- (ii) Ni roddwyd ystyriaeth lawn i'r risg o hadu o'r conwydd. Roedd y cais yn nodi bod "*y risg o hadu o'r conwydd i'r AGA yn isel iawn oherwydd y pellter*" ond rydym o'r farn bod risg wirioneddol i Sitka hunanhadu i'r glustogfa a chynefin agored ar ymyl ogleddol yr AGA. Hefyd, nid ydym yn ystyried bod bwriad i gynaeafu "*mwyafrif*" y coed cyn iddynt gyrraedd oedran hadu³ yn warant digon cadarn y bydd y cynefinoedd agored yn cael eu gwarchod. Rydym yn nodi y gall Sitka ddechrau cynhyrchu moch coed o 15 i 20 mlynedd o dyfiant ac felly mae'n debygol y bydd rhai o'r rhain yn datblygu moch coed cyn eu torri.
- (iii) Gall nodwedd casgliad bryoffytau SoDdGA Cwm Doethie – Mynydd Mallaen fod yn berthnasol i'r ardal o SoDdGA coetir llydanddail sydd o fewn ffin y safle a bydd lefelau pori da byw yn effeithio ar gyflwr y nodwedd hon. Mae'r cais sgrinio AEA yn cydnabod mai'r defnydd tir presennol yw "*glaswelltir amaethyddol wedi'i wella ar gyfer pori gan dda byw a thorri porthiant gaeaf*" ac y bydd pori'n cael ei atal ar y safle (gweler e.e. yn 3.1). Rydym yn pryderu na chafodd effeithiau posibl hyn ar y SoDdGA eu hystyried yn briodol.
- (iv) Gall y cynefin agored ar ymyl ogleddol y SoDdGA (a nodir yng Ngham 1 fel glaswelltir asidig wedi'i led-wella) fod yn agored i gonwydd hunanhadu o'r sbrîws Sitca, ac nid ydym yn ystyried bod hyn wedi'i asesu'n briodol.

³ Nododd barn sgrinio CNC "*Mae'r risg o hadu ar gynefin a thirwedd gwarchodedig agored yn isel iawn oherwydd bydd mwyafrif y coed wedi cael eu torri cyn cyrraedd oedran lle cyflawnir cynhyrchu hadau ar raddfa fawr.*"

- (v) Mae gwerth ecolegol y blanhigfa fasnachol wedi'i oramcangyfrif. Yn ôl barn CNC: "*Gan mai nodwedd allweddol yr ardal cadwraeth arbennig yn y lleoliad hwn yw'r coetir hynafol ac mai'r amcan rheoli allweddol yw gwella a chynyddu arwynebedd y coetir brodorol, cyflawnir yr amcan hwnnw gan y blanhigfa fasnachol*". Er y bydd ardal fechan o goetir llydanddail yn cael ei phlannu fel rhan o'r cynllun, mae Barn CNC yn awgrymu y bydd y coetir hynafol sy'n ffurfio nodwedd allweddol o'r ACA yn cael ei gyfoethogi gan y blanhigfa fasnachol. Mae'n amlwg nad yw hyn yn wir, gan fod coetir hynafol yn gwbl wahanol o ran cyfansoddiad rhywogaethau, strwythur (canopi, haen o lwyni, fflora daear) ac ecoleg – ac felly gwerth cadwraeth natur – i blanhigfeydd masnachol. Byddem yn gofyn i unrhyw wahaniaeth gael ei ystyried a'i gofnodi'n fanwl gywir mewn cynigion yn y dyfodol."

Yn fwy cyffredinol, ac fel yr eglurir ymhellach isod, mae gennym bryderon difrifol bod CNC wedi cymryd yn ganiataol, heb sylfaen dystiolaeth briodol, (a) y bydd y Prosiect yn arwain at gynnydd yn y lefel dal a storio carbon a/neu ostyngiad net mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr ("**GHGs**"), a (b) na fydd unrhyw broblemau yn ymwneud ag asideiddio'r cyrff dŵr yr effeithir arnynt.

Yn olaf, rydym yn nodi bod y Prosiect yn agos at graidd poblogaethau'r Wiwer Goch (*Sciurus vulgaris*) (ym Mryn Arau Duon dim ond 2km i'r gogledd ddwyrain o'r safle) ac mae'r dyffryn yn llwybr mynediad pwysig ar gyfer Gwiwerod Llwyd (*Sciurus carolinensis*) ymledol. Felly bydd mwy o gysylltedd coetir ar y safle yn cynyddu'r bygythiad i ardal graidd y Wiwer Goch drwy ddarparu llwybr cysylltedd diogel i'r Wiwer Lwyd. Nid yw'n ymddangos bod y risg hon wedi cael ei hystyried o gwbl.

Diffyg unrhyw Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd (ARhC)

Gwnaed y Penderfyniad o dan Reoliadau Coedwigaeth AEA ac roedd yn ymwneud yn unig â'r cwestiwn a ofynnwyd drwy'r Rheoliadau hynny ynghylch a oedd y Prosiect angen caniatâd ac AEA oherwydd ei fod yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd (gan ystyried y meini prawf dethol yn atodlen 3) (rheoliad 6(2)). Roedd CNC o'r farn nad oedd y Prosiect yn cyrraedd y trothwy hwn ac, o'r herwydd, o dan Reoliadau Coedwigaeth AEA, nid oedd y Prosiect angen caniatâd CNC i fwrw ymlaen (gweler rheoliadau 3 a 4).⁴ Ni ddywedwyd gair yn y farn sgrinio hon ynghylch a oedd angen asesiad priodol (sef Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd ("**ARhC**")) o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 ("**Rheoliadau Cynefinoedd**").

Ar 17 Tachwedd 2021, ysgrifennodd INCC at CNC yn gofyn am gopi o ARhC llawn y safle fel rhan o broses sgrinio CNC. Ar 15 Rhagfyr 2021, ymatebodd CNC fel a ganlyn:

Ni chynhaliwyd ACRh, fodd bynnag, cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, mae'r asesiad hwn yn dilyn y meini prawf a nodir yn atodlen 3 y Rheoliadau AEA. Nid yw ARhC yn cael ei gynnal yn y cam barn sgrinio gan nad yw CNC, yn y cam hwnnw, yn rhoi unrhyw gydsyniad, caniatâd neu awdurdodiad arall ar gyfer y gwaith arfaethedig. Pe bai angen caniatâd o dan y Rheoliadau AEA byddai'r ARhC yn cael ei gynnal bryd hynny.

⁴ I osgoi amheuaeth, nid yw INCC yn cytuno â sylwedd y penderfyniad hwnnw.

Yn dilyn hynny, cadarnhaodd CNC bod y cyfeiriad at “Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol” yn gyfeiriad at y farn sgrinio AEA yn unig⁵. Felly, mae INCC yn deall na wnaeth CNC ystyried a oedd angen ARhC ar gyfer y Prosiect oherwydd, ar sail ei farn sgrinio AEA, nid oedd angen “caniatâd” i’r Prosiect barhau.

Rydym yn ystyried bod hwn yn ddull sylfaenol ddiffygiol. Mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/EEC) yn sefydlu trefn annibynnol benodol ar gyfer asesu effeithiau amgylcheddol ar safleoedd Ewropeaidd (fel y gweithredir gan y Rheoliadau Cynefinoedd). Mae erthygl 6(3) yn darparu fel a ganlyn:

Bydd unrhyw gynllun neu brosiect nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â neu'n angenrheidiol i reolaeth y safle ond sy'n debygol o gael effaith sylweddol arno, naill ai'n unigol neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill, yn destun asesiad priodol o'i oblygiadau i'r safle yn wyneb amcanion cadwraeth y safle. Yng ngoleuni casgliadau'r asesiad o'r goblygiadau i'r safle, ac yn ddarostyngedig i ddarpariaethau paragraff 4, dim ond ar ôl canfod na fydd yn effeithio'n niweidiol ar integriti'r safle y bydd yr awdurdodau cenedlaethol cymwys yn cytuno i'r cynllun neu'r prosiect dan sylw ac, os yw'n briodol, ar ôl cael barn y cyhoedd.

Er bod rhywfaint o eiriad erthygl 6(3) yn debyg i'r geiriad a geir yn y Gyfarwyddeb AEA (2011/92/EU a 2014/52/EU), yn enwedig yr ymadrodd “yn debygol o gael effaith [effeithiau] arwyddocaol”⁶, mae'r llysoedd wedi dyfarnu'n glir bod y ddwy Gyfarwyddeb yn wahanol ac nad oes gan yr ymadrodd yr un ystyr yn y ddwy (gweler e.e. R (An Tasice (Ymddiriedolaeth Genedlaethol Iwerddon)) v SSECC [2014] EWCA Civ 111 yn [16]-[23]; ac R (Jedwell) v Cyngor Sir Ddinbych et ors [2015] EWCA Civ 1232 yn [61]).⁷

Yn fwy na hynny, mae'r llysoedd wedi pwysleisio, yng nghyd-destun y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, bod yr ymadrodd “effaith sylweddol debygol” yn sefydlu prawf trothwy arbennig o isel (“*isel iawn*”⁸), gyda'r bwriad o sicrhau lefel uchel iawn o amddiffyniad i safleoedd Ewropeaidd drwy orfodi dull llym o ran a oes angen ARhC (gweler e.e. An Taisce yn [18] yn cyfeirio at ddyfarniad blaenllaw Waddenzee CJEU⁹ a oedd yn dyfarnu, yng nghyd-destun y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, bod “*tebygol*” yn golygu “*tebygolrwydd neu risg*” a bod “*risg o'r fath yn bodoli os na ellir ei heithrio ar sail gwybodaeth wrthrychol y bydd y ... prosiect yn cael effeithiau sylweddol ar y safle dan sylw*” yn [44]-[45]). Yn wahanol i'r drefn AEA (sydd ond yn sefydlu dyletswyddau gweithdrefnol), mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn gorfodi dyletswydd sylweddol ar Aelod-Wladwriaethau i sicrhau nad yw datblygiad yn effeithio'n niweidiol ar integriti safleoedd Ewropeaidd.¹⁰

⁵ E-bost gan y “Tîm Mynediad at Wybodaeth” i Rob Parry ar 23 Rhagfyr 2021.

⁶ Gweler e.e. Cyfarwyddeb AEA, erthygl 2(1).

⁷ Gweler hefyd, yng nghyd-destun y cwmpas gwahanol ar gyfer yr ystyr “*prosiectau*” rhwng y ddwy gyfarwyddeb: Friends of the Irish Environment Ltd v An Bord Pleanala (C-254/19) [2021] Env LR 16 yn [29]-[30] a Coöperatie Mobilisation for the Environment and Vereniging Leefmilieu (C-293/17 a C-294/17) [2019] Env LR 27 yn [65] et seq.

⁸ Atwrnai Cyffredinol Sharpston yn Sweetman v An Bord Pleanala (C-258/11) [2014] PTSR 1092 yn [45]-[50], yn ailddatgan y trothwy ar lafar fel “a ddylen ni drafferthu gwirio?”.

⁹ Landelijke Vereniging tot Behoud van de Waddenzee v Staatssecretaris Van Landbouw, Nat uurbeheer en Visserij (coöperatieve producentenorganisatie van de nederlandse kokkelvisserij UA, yn y canol) (Achos C-127/02) [2005] Pob ER (EC) 353.

¹⁰ Ac oni bai fod y datblygiad hwnnw'n dod o dan yr eithriadau sydd wedi'u datgan yn erthygl 6(4).

Felly, ni ellir cymryd yn ganiataol na fydd angen ARhC ar brosiect dim ond oherwydd nad oes angen AEA. Yn wir mae'r CJEU wedi dyfarnu o'r blaen bod deddfwriaeth ddomestig wedi methu trosi'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn briodol oherwydd ei bod yn cyfateb i'r ddau ddull asesu (Comisiwn v Iwerddon C-418/04 [2007] ECR I-10947

Ymhellach, nid yw'r ffaith nad oedd angen caniatâd ffurfiol ar gyfer y Prosiect o dan y Rheoliadau Coedwigaeth AEA mewn unrhyw fodd yn atal CNC rhag ystyried a oedd angen ARhC. Mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cymwys gynnal asesiad priodol cyn "penderfynu cynnal, neu roi unrhyw gydsyniad, caniatâd neu awdurdodiad arall ar gyfer... prosiect sydd (a) yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar safle Ewropeaidd... a (b) nad yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r safle hwnnw nac yn angenrheidiol i'w reoli" ond rhaid dehongli'r geiriad hwn yn unol â geiriad syml erthygl 6(3) – "rhaid i'r awdurdodau cenedlaethol cymwys gytuno i'r...prosiect" ac yng ngoleuni diben y Gyfarwyddeb Cynefinoedd o sicrhau lefel uchel iawn o warchodaeth i safleoedd Ewropeaidd (gweler uchod).

Yn ôl CJEU, wrth benderfynu a fu "cytundeb" i brosiect, nid yw'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn rhagnodol ond mae'r diffiniad o "cydsyniad datblygu" yn erthygl 1(2)(c) o'r Gyfarwyddeb AEA yn berthnasol i ddiffinio'r term. (Inter-Environnement Wallonie ASBL v Conseil des Ministres (C-411/17) [2020] Env LR 9 yn [142]; Friends of the Irish Environment Ltd v An Bord Pleanala (C-254/19) [2021] Env LR 16 yn [42]). Mae erthygl 1(2)(c) yn diffinio'r term "cydsyniad datblygu" yn fras fel "penderfyniad yr awdurdod neu'r awdurdodau cymwys sy'n rhoi'r hawl i'r datblygwr fwrw ymlaen â'r prosiect". Mewn manau eraill mae'r llys wedi dyfarnu bod y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn berthnasol i benderfyniad i gyflwyno dosbarth newydd o fferïau yn lle'r fferïau presennol, hyd yn oed lle nad oedd angen caniatâd ffurfiol (R (oao Akester et anr) v DEFRA et ors [2010] EWHC 232 (Admin)).

Yng ngoleuni hyn oll, rydym o'r farn bod Penderfyniad CNC yn benderfyniad a oedd yn rhoi'r hawl i'r ymgeisydd fwrw ymlaen â'r Prosiect (drwy benderfynu i bob pwrpas nad oedd angen cydsyniad pellach) a thrwy hynny ei fod yn "gytundeb" o fewn cwmpas erthygl 6(3). Felly, roedd angen i CNC ystyried (yn y cam hwnnw) a oedd angen ARhC. Gellir dadlau bod ei fethiant i wneud hynny yn anghyfreithlon.

Os bydd CNC yn parhau i dybio nad oes angen iddo ystyried yr angen am ARhC ar gyfer prosiectau coedwigaeth lle cafwyd barn sgrinio AEA negyddol, rydym yn ystyried bod risg wirioneddol o her gyfreithiol i benderfyniadau yn y dyfodol.

Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Fel y bydd CNC yn ymwybodol, mae erthygl 4 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (Gorchymyn 2012) yn datgan ei bod yn ofynnol i CNC wneud y canlynol:

- (a) mynd ati i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn perthynas â Chymru; a
- (b) cymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar gyfer adnoddau naturiol wrth ymarfer ei swyddogaethau, i'r graddau eu bod yn gyson â'u hymarfer yn briodol.

Mae Adran 3 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn diffinio “rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol” i olygu, ymhlith pethau eraill, cymryd camau sy’n hybu (a pheidio â chymryd camau sy’n rhwystro) cyflawni’r amcan i “gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a’r buddion maent yn eu darparu”¹¹.

At hynny, mae adran 4 o’r Ddeddf yn nodi bod “egwyddorion rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol” yn cynnwys:

- (a) rheoli’n addasol, drwy gynllunio, monitro, adolygu a, lle bo hynny’n briodol, newid camau gweithredu;
- (b) ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer gweithredu;
- (c) hyrwyddo a chymryd rhan mewn cydweithredu a chydweithio;
- (ch) gwneud trefniadau priodol ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau;
- (d) ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth mewn perthynas ag ansicrwydd;
- (dd) ystyried manteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau;
- (e) ystyried canlyniadau tymor byr, canolig a hir camau gweithredu;
- (f) cymryd camau i atal niwed sylweddol i ecosystemau;
- (ff) ystyried gwytnwch ecosystemau, yn enwedig yr agweddau a ganlyn —
 - (i) amrywiaeth rhwng ac o fewn ecosystemau;
 - (ii) y cysylltiadau rhwng ac o fewn ecosystemau;
 - (iii) graddfa ecosystemau;
 - (iv) amodau ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a’u swyddogaeth);
 - (v) addasrwydd ecosystemau.

Yng ngohebiaeth INCC ar 17 Tachwedd 2021, gwnaethom ofyn am gopi o asesiad CNC o sut roedd y cynllun planhigfa coedwigaeth yn bodloni egwyddorion Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol CNC. Ymatebodd CNC:

Nid ydym yn cynnal asesiad SMNR penodol, caiff y prosiect ei asesu yn erbyn ‘Rheoliadau AEA’ atodlen 3 a Safonau Coedwigaeth y Deyrnas Unedig, sef y safon gyfeirio ar gyfer rheolaeth gynaliadwy ar goedwigoedd yn y DU sy’n cwmpasu rheoli coetiroedd a chreu coetiroedd.

Rydym yn deall o’r ymateb hwn, wrth ystyried datblygiad fel y Prosiect, mai dim ond Rheoliadau Coedwigaeth AEA a’r UKFS mae CNC yn eu hystyried ac nad yw hefyd yn ystyried, nac yn cymhwys, egwyddorion SMNR. Os yw hynny’n gywir, rydym o’r farn bod CNC yn gweithredu’n anghyfreithlon ac yn mynd yn groes i’w ddyletswyddau diben cyffredinol o dan erthygl 4 Gorchymyn 2012.

Mae erthygl 4 wedi’i drafftio’n benodol fel y gellir cymhwyso’r egwyddorion SMNR ar y cyd (“i’r graddau eu bod yn gyson â”) swyddogaeth CNC o wneud penderfyniadau o dan Rheoliadau Coedwigaeth AEA. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, wrth ystyried y cais sgrinio AEA ar gyfer y Prosiect, bod angen

¹¹ A, thrwy wneud hynny, (a) diwallu anghenion cenedlaethau’r presennol o bobl heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion a (b) cyfrannu at gyflawni nodau lles yn adran 4 Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (anaw 2) (gweler adran 3(2) EWA).

i CNC *“ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth mewn perthynas ag ansicrwydd”* (adran 4(e) EWA). Am y rhesymau a roddir uchod ac isod, nid ydym yn ystyried bod CNC wedi gwneud hynny.

Mae INCC felly yn gofyn (eto) am eglurhad gan CNC ynghylch a oedd/sut bu'n ystyried ei ddyletswyddau o dan erthygl 4 Gorchymyn 2012 wrth ymateb i'r Prosiect. Os yw CNC o'r farn ei fod wedi cydymffurfio â dyletswyddau erthygl 4 wrth ystyried y Prosiect, mae INCC yn gofyn am eglurhad ynghylch pam mae CNC o'r farn honno.

Adran 6, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Bydd CNC hefyd yn ymwybodol o'r ddyletswydd bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau yn adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru), a ddisodlodd ac a gyfoethogodd y ddyletswydd yn adran 40 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (a oedd ond wedi ei gwneud yn ofynnol i CNC *“roi ystyriaeth”* i ddiben gwarchod bioamrywiaeth). Mae adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i CNC, fel awdurdod cyhoeddus, *“geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth ymarfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, a thrwy wneud hynny hyrwyddo gwytnwch ecosystemau, i'r graddau y mae'n gyson ag ymarfer y swyddogaethau hynny yn briodol”*. Mae'r Nodiadau Esboniadol ar gyfer adran 6 yn egluro bod y ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ymarfer eu swyddogaethau *“mewn ffordd sy'n anelu at wella a phaidio â lleihau bioamrywiaeth ac wrth wneud [sic] rhaid iddynt geisio hybu gwytnwch ecosystemau”*.

Mae gan INCC bryderon gwirioneddol bod CNC wedi methu cydymffurfio â'r ddyletswydd hon, oherwydd ei fod (a) wedi methu ystyried a oedd angen unrhyw ARhC a (b) wedi methu craffu'n briodol ar effeithiau amgylcheddol y Prosiect, fel y disgrifir uchod ac isod.

Unwaith eto, mae INCC yn gofyn am eglurhad gan CNC ynghylch a wnaeth/sut ystyriodd ei ddyletswydd adran 6 wrth ymateb i'r Prosiect. Os yw CNC o'r farn ei fod wedi cydymffurfio â dyletswydd adran 6 wrth ystyried y Prosiect, mae INCC yn gofyn am eglurhad ynghylch pam mae CNC o'r farn honno.

Ystyried ôl troed carbon

Roedd y cais sgrinio AEA yn cynnwys un llinell ar effeithiau allyriadau carbon, o dan y pennawd *“y risg o ddamweiniau neu drychinebau mawr sy'n berthnasol i'r prosiect dan sylw, gan gynnwys y rhai a achosir gan newid hinsawdd...”*. Dywedodd *“Bydd y coetir newydd yn cynyddu lefel y dal a storio carbon gan y coed a'r pridd.”* Nid yw barn CNC yn cyfeirio at effeithiau carbon o gwbl.

Rydym yn nodi bod paragraff 3 atodlen 3 Rheoliadau Coedwigaeth AEA yn ei gwneud yn ofynnol i CNC, wrth ffurfio ei farn sgrinio, ystyried effeithiau sylweddol tebygol y prosiect ar yr amgylchedd, gan ystyried effaith y prosiect ar y ffactorau a nodir yn atodlen 4, sy'n cynnwys *“aer a hinsawdd”* yn benodol (atodlen 4(c)). Roedd angen i CNC hefyd ystyried, fel rhan o'r ymarfer hwn, nodweddion y prosiect gan roi sylw arbennig i *“lygredd a niwsans”* ymhlith pethau eraill (paragraff 1(e) atodlen 3). Felly, dylai CNC fod wedi ystyried effeithiau allyriadau nwyon tŷ gwydr cyffredinol y Prosiect wrth ystyried ei effeithiau amgylcheddol tebygol.

Nid yw'n briodol tybio yn syml y bydd prosiectau coedwigo yn lleihau, yn gyffredinol, nwyon tŷ gwydr oherwydd y dal a storio carbon sy'n gysylltiedig â phlannu coed. Mae hynny'n arbennig o wir yng nghyd-destun prosiect fel hwn sy'n gynllun a arweinir gan CONFOR sydd wedi'i ddylunio i sicrhau cyflenwadau pren i Gymru (gyda'r cynlluniau'n nodi y bydd pren yn cael ei gynaeafu'n gymharol gyflym). Bydd yr allyriadau nwyon tŷ gwydr net yn dibynnu ar gymhlethdod o ffactorau gan gynnwys yr union fath o bridd, newidiadau albedo, oedran cynaeafu a chynnyrch terfynol. Nid yw'n ymddangos bod yr un o'r rhain wedi'u hystyried yn fanwl gan CNC (nac, yn wir, o gwbl); ac nid yw hyn yn cael ei esbonio ym Mhenderfyniad CNC ychwaith.

Yn fwy cyffredinol, mae INCC yn bryderus iawn, drwy beidio â chraffu'n briodol ar effeithiau allyriadau cynlluniau fel y Prosiect, bod CNC yn methu ystyried gwir effaith cynlluniau o'r fath ar gyflawni targed Sero Net y DU a bod CNC mewn perygl o weithredu yn erbyn addewid Llywodraeth Cymru i "*ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnaawn*" (Rhaglen Lywodraethu 6^{ed} Senedd (2021)).

Mae INCC, felly, yn gofyn am eglurhad gan CNC ynghylch a wnaeth/sut bu'n ystyried effeithiau allyriadau nwyon tŷ gwydr net y Prosiect wrth ffurfio'i farn sgrinio.

Risgiau asideiddio

Rydym yn cydnabod bod y safle ei hun yn rhan o ddalgylch "blaenddw'r Cothi i gydlifiad gyda'r Twrch" ac nad yw'r dalgylch hwn yn sensitif i asid. Fodd bynnag, mae'r Cothi yn sensitif i asid am y rhan fwyaf o'i hyd islaw'r blaenddyfroedd ac mae afon Cothi yn draenio i ACA afon Tywi.

Yng ngoleuni'r ffaith bod y safle'n draenio i afon sy'n sensitif i asid, dylai CNC fod wedi rhoi ystyriaeth briodol i effeithiau asideiddio posibl y Prosiect (fel planhigfa gonwydd) ac mae ffurflen sgrinio AEA CNC yn rhy gyfyngedig wrth ddim ond gofyn i'r ymgeisydd "*a yw'r prosiect o fewn dalgylch sy'n sensitif i asid?*" mewn perthynas ag "*effaith ar ansawdd dŵr*" (yn 3.14). Rydym hefyd yn nodi ymateb CNC ar 15 Rhagfyr i'r mater hwn:

Ystyriwyd asideiddio fel rhan o'r asesiad a daethpwyd i'r casgliad, oherwydd nad yw'r safle coedwigo arfaethedig o fewn dalgylch 'mewn perygl' neu 'sy'n methu', nad oes pryderon mewn perthynas ag effeithiau ar gyrff dŵr cyfagos. Defnyddir ein system mapio data i benderfynu a yw'r cynnig o fewn y dalgylch 'mewn perygl/sy'n methu'.

Eto, rydym yn ystyried asesiad o'r fath yn rhy gyfyng o lawer. Ni ellir cymryd yn ganiataol os nad yw safle coedwigo arfaethedig (ei hun) wedi'i leoli o fewn dalgylch "mewn perygl" neu "sy'n methu"¹² na fydd unrhyw effeithiau asideiddio niweidiol ar gyrff dŵr o amgylch.

Mae INCC felly yn ceisio eglurhad ynghylch a yw CNC wedi ystyried y potensial ar gyfer effeithiau asideiddio o'r Prosiect ar gyrff dŵr i lawr yr afon ac, os nad yw, a yw CNC yn ystyried bod hepgoriad o'r fath yn dderbyniol. Yn fwy cyffredinol, mae INCC yn gofyn i CNC ailystyried sut mae'n ymdrin â'r

¹² Rydym yn nodi nad yw CNC wedi darparu unrhyw ddiffiniad penodol o sut mae'n diffinio ardaloedd o'r fath.

math hwn o asesiad ac yn galw ar CNC i ddefnyddio dull mwy cynnil, manwl a phenodol i brosiect o weithredu.

Casgliad

Mae INCC yn ailadrodd ei bryderon difrifol am Benderfyniad CNC a'r ystyriaeth i'r Prosiect. Er mwyn bod yn agored ac yn dryloyw, mae INCC yn ceisio hysbysu CNC am y materion hyn drwy'r llythyr hwn, gan gynnwys y risg wirioneddol iawn bod CNC wedi gweithredu'n anghyfreithlon. Mae INCC hefyd yn ceisio eglurhad ar y materion amrywiol a nodir uchod er mwyn deall yn llawn ddull CNC o weithredu (o ran ei asesiad o effeithiau'r Prosiect a'i ystyriaeth o'i ddyletswyddau cyfreithiol). O'r wybodaeth gyfyngedig sydd ar gael i INCC, mae'n ystyried bod risg wirioneddol o her gyfreithiol pe bai CNC yn ymateb i unrhyw gynnig yn y dyfodol yn yr un modd ag y mae wedi delio â'r Prosiect hwn.

Edrychwn ymlaen at dderbyn ymateb i'r llythyr hwn cyn gynted â phosibl.

Yr eiddoch yn gywir,

Robert Jones Parry
Prif Swyddog Gweithredol
Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru